**EITEM AR YR AGENDA: 11**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2006**

**Tân Cyntaf – PROSIECT GORSAF DÂN GYMUNEDOL Y RHYL**

**Adroddiad gan Colin Hanks,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Rhoi'r diweddaraf am y tro i'r aelodau am brosiect Tân Cyntaf y Rhyl.

**Cyflwyniad**

**2.** Bydd yr aelodau'n ymwybodol y cytunwyd yn y Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP) 2005 i fabwysiadu'r cysyniad o orsafoedd tân cymunedol, a dewiswyd y Rhyl i fod y gyntaf o'r fath yn y Gogledd.

**3.** Tra mae rhai gorsafoedd yn y Gogledd eisoes wedi cael eu haddasu i gael lle i asiantaethau eraill, y prosiect hwn fydd yr orsaf dân gymunedol gyntaf i gael ei hadeiladu i'r diben hwnnw.

**4.** Bydd yr adnodd yn galluogi'r Gwasanaeth i fod yn nes at y cyhoedd, yn codi proffil gwaith cymunedol y Gwasanaeth ac yn gymorth i ddatblygu partneriaethau gydag asiantaethau eraill.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**5.** Trwy ddarparu adnoddau megis ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd, bydd yn gymorth i'r Gwasanaeth gyrraedd aelodau o'r gymuned nad ydynt yn cael eu cyrraedd trwy grwpiau targed penodol megis plant ifanc iawn a'r henoed.

**Cefndir**

**6.** Cafodd Gorsaf Dân y Rhyl ei hadeiladu yn y 1950au ac mae angen eu hadnewyddu a'i moderneiddio. Yn dilyn symud Pencadlys y Gwasanaeth o'r Rhyl i safle pwrpasol yn Llanelwy yn 2005, mae rhannau o'r adeilad yn wag.

**7.** Mae'r Rhyl yn lle delfrydol ar gyfer gorsaf dân gymunedol gyntaf y Gwasanaeth a bydd y lle fydd ar gael yn gymorth i ateb y gofyniad sydd ar wasanaethau tân ac achub i hybu diogelwch cymunedol a gweithio mewn partneriaeth.

**8.** Er mwyn sicrhau hyfywedd yr adnoddau cymunedol yn yr orsaf, aeth Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ati i wneud astudiaeth o orsafoedd tân cymunedol trwy Brydain i weld pa rai oedd fwyaf effeithiol.

**9.** Lansiwyd ymgyrch Tân Cyntaf y Rhyl yn Chwefror 2006 i godi ymwybyddiaeth am brosiect yr orsaf gymunedol, i asesu'r angen yn lleol, a gweld pa fath o adnoddau a gweithgareddau yr oedd y bobl yn dymuno eu gweld.

**10.** Defnyddiwyd ffordd wreiddiol o ymgysylltu â phobl yr ardal i gasglu gwybodaeth ddefnyddiol am eu hanghenion. Arweiniodd hyn at 1,000 o bobl yn dod i'r diwrnod agored yng Ngorsaf Dân y Rhyl ar Ebrill 1af 2006.

## Gwybodaeth

**11.** Yn seiliedig ar ymchwil leol a chenedlaethol, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cynlluniau sy'n cynnwys gwelliannau mawr i ran yr ochr weithredol o'r orsaf – sef y rhan a ddefnyddir gan y diffoddwyr tân a staff eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod y Rhyl yn parhau i dderbyn gwasanaeth tân ac achub o'r radd flaenaf.

**12.** Bydd y lle cymunedol o fewn yr orsaf i'w gael ar dri llawr ac yn cynnwys pump o ystafelloedd cyfarfod yn cynnwys darlithfa a derbynfa, storfa ar gyfer grwpiau sy'n cwrdd yn rheolaidd yn yr orsaf a lle i'r cyhoedd gael gweld y peiriannau tân a'r staff wrth eu gwaith. Bydd yr adnoddau diweddaraf mewn technoleg gwybodaeth ym mhob rhan.

**13.** Bydd y tu allan i'r orsaf hefyd yn cael ei adnewyddu'n llwyr. Nodwedd bwysig o hynny fydd y lifft gwydr i roi mynediad i'r ail lawr i bobl anabl. Bydd toiledau i bobl anabl ar y llawr gwaelod a'r ail lawr hefyd. Y tu ôl i'r orsaf bydd maes parcio mawr.

**14.** Ar Orffennaf 26$^{ain}$ 2006, rhoddodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ganiatâd cynllunio ar gyfer ailfodelu a chodi estyniad i Orsaf Dân y Rhyl.

## Casgliad

**15.** Rhagwelir y bydd y gwaith adeiladu yn cychwyn yng ngwanwyn 2007 yn dilyn gwahodd tendrau yn hydref 2006. Disgwylir i'r gwaith adeiladu barhau am 10 mis.

**16.** Cynhelir digwyddiad arddangos ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn adeilad newydd y Cynulliad ym Mae Caerdydd ar Fedi 26$^{ain}$ 2006. Yr Aelod dros Ddyffryn Clwyd, Ann Jones, fydd yn llywyddu ynghyd â thîm Tân Cyntaf y Rhyl, Cadeirydd yr Awdurdod Tân a swyddogion o'r Gwasanaeth.

**Casgliad** *(parhad)*

**17.** Bydd arddangosfa yno i gynorthwyo i esbonio a dangos mwy am y prosiect, a bydd y derbyniad yn gyfle i Aelodau'r Cynulliad a'r swyddogion drafod y budd a ddaw i'r Rhyl a'r cyffiniau drwy'r datblygiad hwn.

**18.** Rhagwelir mai cyfanswm cost y prosiect, yn cynnwys y ddarpariaeth technoleg gwybodaeth, fydd tua £2 filiwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi awgrymu ei fod yn barod i wneud cyfraniad sylweddol at brosiect Tân Cyntaf y Rhyl ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl cadarnhad o'r cymhorthdal hwn. Cyflwynir adroddiad pellach, yn cynnwys manylion y costau a'r opsiynau cyllido, i'r Panel Gweithredol ar Hydref 9fed 2006.

**Argymhelliad**

**19.** Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.